GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# QISTŵyl-Dydd Gwener 13eg Rhagfyr 2024

## Gwybodaeth Ddefnyddiol am y Digwyddiad

### Aelodau'r tîm QIST ac Ansawdd

Bydd aelodau'r Tîm Ansawdd (sy'n gwisgo gwisg nadoligaidd) ar gael drwy'r dydd a byddant yn hapus i helpu neu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

### Lluniaeth

Bydd lluniaeth ar gael wrth ichi gofrestru ac yn ystod egwylion y bore a'r prynhawn. Bydd yr holl luniaeth (a chinio) yn cael ei weini yn y *Premier Lounge.* Bydd gorsafoedd dŵr ar gael drwy'r dydd.

### Cyrchu'r WiFi

Gallwch gyrchu WiFi y lleoliad yn rhad ac am ddim. Nid oes angen cyfrinair - dim ond mewngofnodi i Wi-Fi Lletygarwch a defnyddio CCFC2024.

### Toiledau

Lleolir toiledau ar bob llawr.

### Ystafell Dawel / Amlffydd

Bydd lle tawel / ystafell amlffydd ddynodedig ar gael drwy'r dydd ar Lawr 2.

### Posteri

Bydd cyfres o bosteri yn cael eu harddangos yn y *Premier Lounge* ar y diwrnod. Bydd y rhain yn arddangos rhai meysydd gwaith rhagorol sy'n ymwneud â Gwella Ansawdd. Byddem yn eich annog i edrych ar y rhain yn ystod egwyl ac amser cinio.

### Stondinau Arddangos

Bydd llawer o arddangoswyr yn bresennol trwy gydol y dydd yn y *Premier Lounge.* Byddem yn eich annog i ymweld â'r stondinau hyn i ddarganfod sut y gallent eich cefnogi neu'ch cynghori yn eich rôl fel hyfforddwr. Gweler yr adran 'Arddangoswyr' ar dudalen we'r Gynhadledd am ragor o wybodaeth.

### Lluniau

Bydd lluniau'n cael eu tynnu yn ystod y dydd at ddibenion cyhoeddusrwydd wedi'r digwyddiad. Cysylltwch ag un o'r timau os nad ydych yn cydsynio i'ch ffotograff gael ei dynnu.

### Gwerthuso'r Gynhadledd

Rydym yn croesawu eich adborth ar y gynhadledd i lywio ein cynllunio ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol a'ch annog i lenwi'r ffurflen werthuso ar-lein a fydd ar gael i chi ei chwblhau ar ddiwedd y dydd.

## Tystysgrifau

Ceisiwyd achrediad DPP gan Goleg Brenhinol yr Anesthetyddion a bydd tystysgrifau'n cael eu e-bostio at yr holl gynrychiolwyr ar ôl y digwyddiad.

# STADIWM DINAS CAERDYDD
# CYFARWYDDIADAU

**Stadiwm Dinas Caerdydd**
Ffordd Leckwith
Caerdydd
CF11 8AZ

**Ll. Ll.**
Cod Post: CF11 8AZ


### Gyrru o'r Dwyrain
Gadewch yr M4 ar gyffordd 33. Ar y gylchfan, cymerwch yr allanfa 1af i'r A4232 gydag arwydd Penarth. Ar ôl 6 milltir gadewch yr A4232, gan ddilyn yr arwydd i Stadiwm Dinas Caerdydd. Ar y gylchfan cymerwch yr allanfa gyntaf i Ffordd Leckwith (B4267 wedi'i harwyddo i Ganol y Ddinas). Mae Stadiwm Dinas Caerdydd ar y dde.


### Gyrru o'r Gorllewin
Gadewch yr M4 ar gyffordd 33. Ar y gylchfan, cymerwch y 3ydd allanfa i'r A4232 gydag arwydd Penarth. Ar ôl 6 milltir gadaewch yr A4232, gan ddilyn yr arwydd i Stadiwm Dinas Caerdydd. Ar y gylchfan cymerwch yr allanfa gyntaf i Ffordd Leckwith (B4267 wedi'i harwyddo i Ganol y Ddinas). Mae Stadiwm Dinas Caerdydd ar y dde.

### Ar y Bws
Mae gwasanaeth bws rheolaidd i Stadiwm Dinas Caerdydd o Orsaf Fysiau Caerdydd Canolog. Mae bysiau rhif 1, 8, 95, X91, X1 a 95B yn aros gerllaw, y niferoedd mwyaf uniongyrchol yw 1, 2, 4, 95A, 95B a 95C. Cysylltwch â Bws Caerdydd am ragor o wybodaeth.

### Ar y Trên
Dim ond taith 2 filltir mewn tacsi o orsaf reilffordd Caerdydd Canolog yw Stadiwm Dinas Caerdydd. Mae trenau rheolaidd i Lundain (Paddington), Reading, Swindon, Bryste, Portsmouth, Southampton, Weymouth a Gorllewin Cymru, gyda chysylltiadau hawdd â'r rhan fwyaf o ardaloedd y DU. Cysylltwch â National Rail am ragor o wybodaeth.

### Mewn Awyren
Mae Maes Awyr Caerdydd tua 11 milltir i ffwrdd o Stadiwm Dinas Caerdydd, gyda chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da, ceir llogi a gwasanaethau tacsi. Gellir trefnu cyrraedd y Stadiwm mewn hofrennydd hefyd .






# MAP STADIWM DINAS CAERDYDD

- Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd
- 1 Man Cyfarfod A: Cerflun Fred Keenor
- 2 Man Cyfarfod B: Gatiau Ninian
- 3 Gorsaf Nextbike
- 4 Swyddfa Docynnau
- 5 Archfarchnad
- 6 Prif Dderbynfa
- 7 Derbynfa Ninian
- 8 PaTh / Bws Gwennol Gollwng a Chodi
- 9 Mynedfa Fred Keenor
- 10 Mynedfa Brian Clark
- 11 Mynedfa Cefnogwyr oddi Cartref

AR GYFER NEWYDDION, TOCYNNAU A GWYBODAETH, YMWELWCH

CARDIFFCITYFC.CO.UK